Ambiwlans: ‘Delio mwy â hunan-niweidio na thrawiadau’ : BBC Cymru Fyw

Mae’r gwasanaeth ambiwlans yng Nghymru yn dweud eu bod yn cael eu galw i lawer mwy o achosion o hunan-niweidio nag achosion o drawiadau neu anafiadau difrifol.

Wrth roi tystiolaeth i bwyllgor iechyd y Cynulliad, dywedodd Gwasanaethau Ambiwlans Cymru bod angen rhagor o hyfforddiant ar staff ambiwlans i allu delio ag achosion o’r fath.

Mae gwaith ymchwil diweddar gan y gwasanaeth wedi canfod:

- Bod tua 5% o alwadau i’r gwasanaeth ambiwlans yn ymwneud â hunan-niweidio, ffigwr “llawer uwch na galwadau i anafiadau difrifol a thrawiadau gyda’i gilydd”;
- Bod rhai unigolion yn osgoi defnyddio gwasnaethau rhag ofn iddyn nhw gael eu cadw dan y Ddeddf Iechyd Meddwl.

Darllen rhagor : BBC Cymru Fyw

Os oes angen cymorth brys arnoch, cysylltwch â’r Samariaid neu’r gwasanaethau brys ar 999

- Teimladau hunanladdol : meddwl.org
- Hunan-niweidio : meddwl.org

- Cymorth : meddwl.org